**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

# CYNNWYS AC YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG CYFUNOL 2012-13

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gyflwyno cynigion ar gynnwys y Cynllun Gwella a Lleihau Risg (CLlR) 2012-13 i'r Aelodau eu cymeradwyo a threfniadau ymgynghori eleni.

## Cefndir

2 Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y mesur') yn gofyn i Awdurdodau Gwella Cymreig osod amcanion gwella iddynt eu hunain sy'n cael eu hymgynghori.

3 Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) yn gofyn i awdurdodau gwella Cymreig gyhoeddi eu cynllun gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl y 30ain o Fedi, y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol mae'r cynllun yn berthnasol iddi. I gyd-fynd gydag amserlen cyhoeddi'r CLlR, mae hyn yn cael ei ddehongli fel 31ain o Hydref ym mhob blwyddyn.

4 Er bod rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn neu gael eu cyflwyno o fewn blwyddyn.

5 Mae Adran 5 o'r mesur yn gofyn i awdurdodau, wrth benderfynu sut i wella, ymgynghori gyda chynrychiolwyr trigolion, talwyr trethi annomestig, defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd â diddordeb yn yr ardal.

6 Nid yw'r mesur ei hunan yn manylu amlder, hyd nag amseru'r ymgynghoriadau, ond mae'r canllaw a roddwyd i'r awdurdod tân ac achub ar sut i gydymffurfio gyda'r mesur yn tybio fod gofynion anstatudol yn y CLlR (i ymgynghori ar CLlR a chynlluniau gweithredu dilynol am o leiaf 12 wythnos) yn cael eu cwrdd.

## Cyflwyniad

7 Roedd Cynllun Gwella a Lleihau Risg cyfunol yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010 yn cynnwys saith o amcanion i'w gwella. Mae'r rhaid wedi eu nodi yn Atodiad 1.

8 Roedd un ar hugain o gamau gweithredu wedi codi o'r saith amcan, gyda nifer ohonynt yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cyflawni.

## Gwybodaeth

<u>Cynnwys arfaethedig Cynllun Cyfunol 2012-13</u>

9 Gan ystyried:

- cwmpas eang yr amcanion presennol yng Nghynllun Gwella a Lleihau Risg 2011-12;
- yr angen i ganiatáu amser i gyfnerthu'r amcanion presennol mewn amser o bwysau cynyddol wrth ostwng cyllidebau;
- yr amserlenni tynn annisgwyl i gyhoeddi cynllun eleni erbyn diwedd Hydref 2011 yn hytrach na diwedd Mawrth 2012; a
- phenderfyniad y Cynulliad i ohirio cyhoeddi Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol newydd, gan adael y Fframwaith 2008-11 bresennol yn ei lle am nawr;

cynigir y dylai'r Awdurdod ystyried parhau gyda'r un saith amcan am flwyddyn arall yn 2011-12, ond gyda chynlluniau gweithredu wedi eu diweddaru.

<u>Dogfen ymgynghori drafft</u>

10 Oherwydd mai ychydig iawn o newidiadau sy'n cael eu cynnig, ac o ystyried cost ac agweddau amgylcheddol y cyhoeddiad, mae achos cryf eleni dros beidio â chyhoeddi'r ddogfen ymgynghori liwgar arferol.

11 Yn lle, bydd taflen driphlyg ddwyieithog syml yn cynnwys crynodeb byr o'r saith amcan a gwybodaeth gyffredinol arall yn cael ei chynhyrchu a'i dosbarthu drwy Ogledd Cymru. (Bydd enghreifftiau ar gael yn ystod y cyfarfod.)

12 Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y wefan, ac fe wahoddir unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar y cynigion i wneud hynny drwy'r post, e-bost neu drwy'r wefan.

**Argymhellion**

13 Fod Aelodau yn:

(i) cymeradwyo cynnwys arfaethedig y Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2012-13; ac yn

(ii) cefnogi'r cynnig i ymgymryd â phroses ymgynghori gyfyngedig.

| | |
|---|---|
| | **AMCANION A CHYNLLUNIAU GWEITHREDU CYNLLUN GWELLA/LLEIHAU RISG 2011-12** |
| | |
| **AMC 1** | **Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn llety byw.** |
| 1.1 | Cyflwyno Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg (gan gynnwys darparu cyngor Diogelwch Cymunedol, cyflwyno ADTC wedi eu targedu a'u teilwra ac offer am ddim yn ôl yr angen). |
| 1.2 | Asesiad Cyfoedion o'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol. |
| 1.3 | Monitro parhaol o'r nifer o danau mewn cartrefi. |
| 1.4 | Cynnwys sefydliadau partner wrth ddysgu gwersi o danau mewn cartrefi a gostwng y tebygrwydd o ddigwydd eto. |
| 1.5 | Defnyddio gwybodaeth i ragweld ac atal tanau mewn cartrefi. |
| 1.6 | Datblygu safon mynychu leol i gefnogi ymateb cyflym a chywir i danau mewn cartrefi. |
| 1.7 | Gwella argaeledd y gorsafoedd tân rhan amser drwy reolaeth fwy effeithiol o'r prosesau recriwtio. |
| | |
| **AMC 2** | **Cynorthwyo i leihau'r risg o danau yn cychwyn trwy ddamwain mewn eiddo annomestig, er mwyn i weithgareddau arferol barhau a bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno beidio bod mewn risg.** |
| 2.1 | Parhau i ddatblygu rhaglen o archwiliadau wedi eu targedu mewn eiddo annomestig gan ddefnyddio gwybodaeth leol a gwybodaeth ar yr RMS. |
| 2.2 | Ymatebion cyflym a chywir i danau mewn eiddo annomestig gan griwiau tân sydd â'r holl wybodaeth ar MDT wedi ei gysylltu â chofnodion canolog a gwybodaeth arall. |
| | |
| | |
| **AMC 3** | **Helpu i ostwng y perygl a'r difrod achosir gan argyfyngau nad ydynt yn ymwneud â thân, megis llifogydd, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a digwyddiadau cemegol.** |
| 3.1 | Parhau i weithio'n rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) a chyfranogiad gweithredol yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. |
| 3.2 | Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau sydd wedi eu cynllunio i wella diogelwch ar y ffyrdd, fel Pas Plws Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a Sioeau Teithio Impact. |

| | |
|---|---|
| 3.3 | Datblygu dull o broffilio digwyddiadau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru i gefnogi a gwella'r strategaeth er mwyn lleihau eu heffeithiau. |
| 3.4 | Datblygu, a mesur yn erbyn dangosyddion perfformiad lleol i gefnogi gwelliant yn yr ardal hon. . |
| 3.5 | Parhau i gynyddu cofnodion cywir o ddeunyddiau peryglus sy'n cael eu cadw ar safleoedd. |
| | |
| **AMC 4** | **Cynorthwyo i daclo problemau o gynnau tân yn fwriadol er mwyn i bobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal beidio bod mewn perygl.** |
| 4.1 | Cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill i atal llosgi bwriadol a gweithredoedd o fandaliaeth oherwydd tân. |
| 4.2 | Gweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion arbennig (e.e. drwy'r Ffenics a chynllun FACE) i helpu i atal ymddygiad o gynnau tân bwriadol. |
| | |
| **AMC 5** | **Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaladwyedd yr Awdurdod drwy ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng yr effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol o ddarparu gwasanaeth tân ac achub.** |
| 5.1 | Y broses o gyflwyno Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaladwyedd. |
| | |
| **AMC 6** | **Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu gyda phobl allai ddarganfod eu hunain o dan anfantais yn gymdeithasol ac/neu'n gymdeithasol, er mwyn inni allu gwella eu synnwyr o les a gostwng y lefel o risg i'w diogelwch personol.** |
| 6.1 | Dod ac ystod o wybodaeth yn seiliedig ar boblogaeth at ei gilydd o ffynonellau dibynadwy i gefnogi'r targedu effeithiol ac effeithlon o gyngor diogelwch. |
| 6.2 | Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n helpu i amddiffyn pobl rhag bod o dan anfantais annheg oherwydd eu hoedran, anabledd, rhyw, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gredo, neu dueddfryd rhywiol. |
| | |
| **AMC 7** | **I sicrhau fod Cynllunio Parhad Busnes y Gwasanaeth a threfniadau rheoli mor gynhwysfawr a diogel ag y gallant fod.** |
| 7.1 | Ail-werthuso adnoddau a chyfrifoldebau Cynllunio Parhad Busnes i hyrwyddo pwyslais newydd ar symud ymlaen gyda chynlluniau presennol a datblygu rhai newydd yn barhaol. |
| 7.2 | Rhoi'r un pwysigrwydd ar reoli parhad busnes corfforaethol a gweithredol i sicrhau nad oes yr un ardal yn cael ei esgeuluso a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn. |